Gwahoddiad i arwyddo deiseb bwysig

Mae Cymdeithas y Cymod (Cell Dwyryd a Glaslyn) wedi lansio Deiseb arbennig ar drothwy'r Pasg : *Na i Trident.* Gyda thoriadau mawr i ddod ar wasanaethau fel iechyd, addysg a'r gwasanaethau cyhoeddus mae'r farn yn symud yn erbyn y gwariant aruthrol ar adnewyddu Trident. Mae'r gost o gynnal Trident ar hyn o bryd yn aruthrol (£4,000 ***y funud***) Amcangyfrif y Llywodraeth o gost yr adnewyddu erbyn 2024 yw £15-20 biliwn, ond o gymeryd popeth i ystyriaeth fe fydd y gost erbyn y flwyddyn honno yn nes at **£115 biliwn**. Does ryfedd fod mwy a mwy o bobl yn gweld ffolineb y fath wariant. Ac o gael grym niwclear mor aruthrol o fawr (272 o daflegrau niwclear) a phob un 8 gwaith yn gryfach na'r bom gyntaf a syrthiodd ar Hiroshima a lladd 140,000 o bobl ar amrantiad. Mae meddu a datblygu arfau niwclear yn golygu fod llywodraeth Prydain yn fodlon i'w defnyddio. Mae'n amhosibl meddwl am unrhyw achos fyddai yn werth y dinistr a'r dioddefaint a fyddai yn peryglu'r ddynoliaeth a gwenwyno'r cread. Daeth yn bryd dweud 'Digon yw digon' a bod cyfrifoldeb moesol ar unrhyw lywodraeth i gyfeirio y gwariant hwn tuag at weithgarwch ac adnoddau iechyd, addysg, tlodi a datblygu dulliau di-drais i fyw mewn diogelwch.

Pa well cyfnod na'r Pasg a'i neges am fywyd, bendith a gobaith? Mae'r ymgyrch hon yn gwbwl berthnasol i ddyfodol ein cymuned ac mae'n gyfrifoldeb arnom fynegi ein barn ar drothwy Etholiad Cyffredinol.

Yr ydym yn gwahodd unrhyw sefydliad i dderbyn y ddeiseb a'i hyrwyddo. Fe allwch lawrlwytho'r ddeiseb ar *www.cymdeithasycymod.org.uk/adnoddau.htm* neu fe allwn ei hanfon atoch. Os hoffech wahodd person i siarad yn fyr am y ddeiseb, mewn cyfarfod o'ch cymdeithas/eglwys/sefydliad fe fyddwn yn fodlon iawn awgrymu enw i chwi. Fe fydd y ddeiseb hefyd mewn siopau ac adeiladau cyhoeddus lleol.

Ffoniwch 01766 523794 neu 01766 514160 am fwy o wybodaeth neu i ofyn am y ddeiseb.

Cymdeithas y Cymod, Cell Dwyryd a Glaslyn

Deiseb NA i Trident
NO to Trident Petition

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiarfogi niwclear ar y cyd drwy negydu ag ewyllys da yn unol â Chytundeb i Atal Lledaenu Arfau Niwclear. Galwn ar y llywodraeth gan adnabod yr ymrwymiad yma i:

- atal y paratoadau i adnewyddu system arfau niwclear Trident ac i ddechrau ar y broses o ddatgymalu y system sy'n bod eisoes.
- negydu ar y cyd er mwyn creu Confensiwn Arfau Niwclear erbyn 2020 i sicrhau diddymu arfau niwclear ar draws y byd.

We, the undersigned, welcome the UK government's commitment to multilateral nuclear disarmament through good faith negotiations as required by the Nuclear Non-Proliferation Treaty. We call upon the government in recognition of this commitment to:

- *cancel its preparations to renew the Trident nuclear weapons system and start the process of dismantling the existing system.*
- *pursue multilateral negotiations with a view to establishing a Nuclear Weapons Convention by the year 2020 to ensure the elimination of nuclear weapons world wide.*

Enw *Name*	**Cyfeiriad** */ Address*	**Llofnod** */ Signature*

Enw *Name*	**Cyfeiriad** */ Address*	**Llofnod** */ Signature*